# Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
# Caerphilly County Borough Council

## Bwl Road, Nelson
## Gorchymyn Traffig Unffordd Arbrofol Gyda Lôn Feicio Wrthlif 2021

**HYSBYSIR** drwy hyn fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, wrth weithredu ei bwerau o dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (fel y'i diwygiwyd), yn bwriadu mewn nid llai na saith diwrnod o ddyddiad yr Hysbysiad hwn i wneud y Gorchymyn uchod, a fydd â'r effaith o:

Caniatáu traffig unffordd yn unig ar hyd Bwl Road tua'r gogledd yn gyffredinol rhwng y cyffyrdd â Lôn-y-Celyn a Heol Shingrig, ac eithrio beicwyr pedal a fydd hefyd yn gallu teithio tua'r de yn y lôn feicio wrthlif ddynodedig yn unig.

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI**

## Gorchymyn Cydgrynhoi (Gwahardd a Chyfyngu Ar Aros a Llwytho a Mannau Parcio Ar Y Stryd) 2019 (Gorchymyn Diwygio Arbrofol Rhif 1) 2021

HYSBYSIR drwy hyn fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (y 'Cyngor'), wrth weithredu ei bwerau o dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ('Deddf 1984') a Deddf Rheoli Traffig 2004 ('Deddf 2004') a'r holl bwerau galluogi eraill, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III o Atodlen 9 i Ddeddf 1984, yn bwriadu gwneud Gorchymyn a fydd â'r effaith o:

Diwygio Gorchymyn Cydgrynhoi (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Mannau Parcio ar y Stryd) Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili 2019 (Gorchymyn Diwygio Rhif 3) drwy ddileu'r llinellau melyn dwbl rhwng ffin tai rhif 1/2 a 4/5 Brooklands Cottages, Bwl Road, Nelson.

**Diwygio'r Mesurau Gostegu Traffig**

HYSBYSIR hefyd drwy hyn fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, wrth weithredu ei bwerau o dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a Deddf Priffyrdd 1980 a'i holl bwerau galluogi eraill, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu, yn bwriadu diwygio'r mesurau rheoli traffig a ganlyn:

Diwygio'r nodweddion gostegu traffig ar Bwl Road, Nelson, rhwng y cyffyrdd â Lôn-y-Celyn a Heol Shingrig, drwy gael gwared ar y twmpathau pen crwn presennol o led cyfan y ffordd gerbydau, gan gynnwys y lôn feicio wrthlif, sydd i'w disodli â chlustogau arafu 75mm o uchder (2.0m o hyd x 1.65m o led) yn y lôn draffig unffordd tua'r gogledd.

Bydd y Gorchmynion arbrofol am gyfnod o ddeunaw mis ac, yn ystod y cyfnod hwnnw, bydd y Cyngor yn ystyried a fydd darpariaethau'r Gorchymyn hwn yn parhau i fod mewn grym am gyfnod amhenodol, a gall y Pennaeth Isadeiledd, gan weithredu ar ran y Cyngor, wneud unrhyw newidiadau perthnasol yn ôl yr angen, am resymau diogelwch, neu derfynu'r arbrawf os bydd angen gwneud hynny, yn ei farn ef, o fewn y chwe mis cyntaf.

Gellir archwilio copi o'r Gorchymyn arfaethedig, datganiad gan y Cyngor o'i resymau dros wneud y Gorchymyn a mapiau'n dangos y darnau o ffordd dan sylw ar wefan y Cyngor: www.caerffili.gov.uk/GorchmynionRheoleiddioTraffig

Gellir cael rhagor o wybodaeth gan yr Isadran Rheoli Traffig ar 01443 866527 neu RheoliTraffig@caerffili.gov.uk.

Dylid gwneud unrhyw wrthwynebiad i'r Gorchymyn arfaethedig, ynghyd â'r rheswm dros wneud hynny, drwy e-bostio jameshm@caerffili.gov.uk neu crocks@caerffili.gov.uk erbyn 22/09/2021.

Gall yr ohebiaeth gael ei datgelu yn unol â gofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

## Bwl Road, Nelson
## Experimental One-Way Traffic with Contraflow Cycle Lane Order 2021

**NOTICE** is hereby given that Caerphilly County Borough Council in exercise of its powers under the Road Traffic Regulation Act 1984 (as amended) intends in not less than seven days from the date of this Notice to make the above Order, the effects of which will be to:

Allow one-way traffic only along Bwl Road in a generally northerly direction between its junction with Lon-Y-Celyn and Shingrig Road, except for pedal cyclists who will also be able to travel southbound only within the designated contraflow cycle lane.

**CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL**

## (Prohibition and Restriction of Waiting and Loading and On Street Parking Places) Consolidation Order 2019 (Experimental Amendment Order No 1) 2021

NOTICE is hereby given that Caerphilly County Borough Council (the 'Council') in exercise of their powers under the Road Traffic Regulation Act 1984 (the '1984 Act') and the Traffic Management Act 2004 (the '2004' Act) and all other enabling powers and after consultation with the Chief Officer of Police in accordance with Part III of Schedule 9 to the 1984 Act propose to make an Order the effect of which is to:

Amend the Caerphilly County Borough Council (Prohibition and Restriction of Waiting and Loading and On Street Parking Places) Consolidation Order 2019 (Amendment Order No.3) by the removal of double yellow lines between the boundary of house No's 1/2 and 4/5 Brooklands Cottages, Bwl Road, Nelson.

**Amendment to Traffic Calming Measures**

NOTICE is also hereby given that Caerphilly County Borough Council in exercise of their powers under the Road Traffic Regulation Act 1984 and The Highways Act 1980 and all other enabling powers and after consulting with the Chief Officer of Police propose to amend the following traffic management measures as listed below:

Traffic calming features on Bwl Road, Nelson between its junction with Lon-Y-Celyn and Shingrig Road, to be amended by the removal of the existing round topped humps from the whole width of the carriageway including the contraflow cycle lane, which are to be replaced with 75mm high (2.0m long x 1.65m wide) speed cushions in the one-way northbound traffic lane.

The experimental Orders will be for a period of eighteen months during which time the Council is to consider whether the provisions of this Order shall continue in force indefinitely and the Head of Infrastructure acting on behalf of the Council may make any relevant changes as necessary, on safety grounds, or terminate the experiment if, in his opinion, the need arises within the first six months.

A copy of the proposed Order, a statement of the Council's reasons for making the Order and maps showing the affected lengths of roads may be inspected on the Councils website at https://www.caerphilly.gov.uk/Services/Roadsand-pavements/Road-works/Traffic-Regulations-Orders.

Further information can be obtained from the Traffic Management Section, telephone 01443 866527 or email TRAFFMAN@caerphilly.gov.uk.

Any objection to the proposed Order with the grounds for making it should be made by email to jameshm@caerphilly.gov.uk or crocks@caerphilly.gov.uk by 22/09/2021.

Correspondence may be disclosed as required by the Freedom of Information Act 2000.

**Dyddiedig 11 Mawrth 2021**
**Marcus Lloyd**
**Pennaeth Isadeiledd**
**Tŷ Tredomen**
**Parc Tredomen**
**Ystrad Mynach**
**Hengoed**
**CF82 7WF**

**Dated 11th March 2021**
**Marcus Lloyd**
**Head of Infrastructure**
**Tredomen House**
**Tredomen Park**
**Ystrad Mynach**
**Hengoed**
**CF82 7WF**